

## Pennod 17: Heriau yn yr Uchel Lys

### CYFLWYNIAD

- 17.1 Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau cynllunio i Weinidogion Cymru (fel y nodir ym Mhennod 11). Dyma'r math symlaf o rwymedi, a'r un y deuir ar ei draws amlaf yn ymarferol. Fodd bynnag, at hynny, gall y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud o dan y Deddfau cynllunio – gan awdurdodau neu Weinidogion Cymru (a'r Arolygiaeth) – gael ei hadolygu fel arfer gan y llysoedd. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys cais gan y parti tramgwyddedig i'r Llys Cynllunio, sy'n llys arbenigol o fewn Adran Mainc y Frenhines o'r Uchel Lys.
- 17.2 Gellir herio dilysrwydd penderfyniadau:
- 1) drwy wneud cais o dan Ran 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu
  - 2) drwy wneud cais am adolygiad barnwrol, o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.
- 17.3 Ym Mhennod 17 o'r Papur Ymgynghori, ystyriwyd gennym nodweddion y ddwy weithdrefn ac a ellid eu symleiddio. Hefyd, ystyriwyd yn fras y weithdrefn sy'n ei gwneud yn bosibl i fân wallau mewn penderfyniadau gael eu cywiro.

### HERIO DILYSRWYDD PENDERFYNIADAU

- 17.4 Fel arfer caiff cyfreithlondeb penderfyniadau gan awdurdodau cynllunio – gan gynnwys y rhai o dan y Deddfau Cynllunio – eu herio drwy wneud cais am adolygiad barnwrol, oni fydd hawl statudol i apelio neu gyflwyno cais i'r llys. Yn ein Papur Ymgynghori, rhoddwyd crynodeb o'r apeliadau statudol y gellir eu cyflwyno i'r Uchel Lys.<sup>1</sup>
- 17.5 Dim ond drwy adolygiad barnwrol o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil y gellir herio penderfyniadau eraill. Yn benodol, mae hyn yn gymwys i benderfyniadau i roi caniatâd cynllunio neu unrhyw fath arall o ganiatâd, penderfyniadau i alw ceisiadau cynllunio i mewn (neu beidio â gwneud hynny), a heriau i bolisïau a gweithdrefnau awdurdodau lleol yn gyffredinol.
- 17.6 Gall ceisiadau llwyddiannus arwain at roi gorchmynion gorfodol, gorchmynion gwahardd a gorchmynion diddymu.<sup>2</sup> Gall gorchmynion o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus wneud rhywbeth neu ymatal rhag gwneud rhywbeth, neu gallant ddiddymu penderfyniad. Gall yr Uchel Lys hefyd roi datganiad neu waharddeb,<sup>3</sup> er

---

<sup>1</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 17.3 i 17.6

<sup>2</sup> Rheolau Trefniadaeth Sifil, Rheol 54.2.

<sup>3</sup> Rheolau Trefniadaeth Sifil, Rheol 54.3.

mwyn datgan bod gweithredoedd penodol yn annilys, mynegi barn ar yr hawliau sydd gan bartïon neu atal gweithredoedd pellach rhag cael eu cyflawni.<sup>4</sup>

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei disodli yn y Cod Cynllunio gan ddarpariaethau newydd i'r perwyl y gall llys ystyried achos ar gyfer amau unrhyw benderfyniad gan gorff cyhoeddus o dan y Cod (ac eithrio un y mae hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn ei erbyn) – ac unrhyw fethiant i wneud unrhyw benderfyniad o'r fath – ond dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol: (1) caiff yr achos ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol; a (2) caiff y ffurflen gais ei chyflwyno cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos yn achos her i benderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (ac eithrio penderfyniad sy'n rhoi caniatâd cynllunio), hysbysiad cyfnewid coed, hysbysiad tir blêr y golwg neu benderfyniad sy'n rhoi tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli; cyn diwedd y cyfnod o chwe wythnos mewn unrhyw achos arall, sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwnaed y penderfyniad perthnasol (Cwestiwn 17-3 o'r Ymgynghoriad).***

- 17.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae camau wedi'u cymryd i safoni'r ddwy weithdrefn. Yn benodol, ers 2013, mae'n rhaid i geisiadau am adolygiad barnwrol ar gyfer penderfyniadau cynllunio gael eu gwneud o fewn chwe wythnos i'r penderfyniad cychwynnol, yn unol â'r terfyn amser ar gyfer heriau statudol o dan Ran 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>5</sup> At hynny, ers i adran 91 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 gael ei deddfu, mae'n rhaid i ymgeiswyr bellach geisio caniatâd i gyflwyno her gynllunio statudol, fel y bu'n ofynnol iddynt ei wneud ers amser maith mewn perthynas â cheisiadau am adolygiad barnwrol.
- 17.8 Fodd bynnag, mae angen dogfennaeth wahanol ar ddau fath o gais o hyd, ac awgrymodd ymatebwyr i'r Papur Cwmpasu fod hynny'n creu cymhlethdod diangen.<sup>6</sup> Felly, awgrymwyd gennym nad oes unrhyw gyfiawnhad mwyach dros fodolaeth system herio statudol ar wahân.
- 17.9 O blith y 31 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 30 yn cytuno â'r cynnig i uno'r gweithdrefnau (a hynny'n frwd gan lawer). Dadleuodd Cymorth Cynllunio Cymru "uniform rules and procedure for challenge aid understanding, and that the existing complexity of the law needs reform". Nododd Cymdeithas Cyfraith Amgylchedd y DU hefyd nad yw'r broses adolygu statudol fawr o werth a'i bod yn peri "... confusion around the processes of challenge and routes to access justice".
- 17.10 Dadleuodd Cyfeillion y Ddaear Cymru, a oedd yn cytuno â'r cynnig yn gyffredinol, y dylid pennu terfyn amser o 12 wythnos ar gyfer gwneud ceisiadau, yn hytrach na chwe wythnos fel y mae ar hyn o bryd (o dan y ddwy weithdrefn).

---

<sup>4</sup> *Administrative Law and the Administrative Court in Wales*, Gardner, Gwasg Prifysgol Cymru, 2016, tud 5-47 ymlaen.

<sup>5</sup> Rheolau Trefniadaeth Sifil, Rheol 54.25(5) a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a 288, 287. Mae'r terfyn amser o chwe wythnos ond yn ymwneud â heriau o dan "the planning Acts", nad ydynt yn cynnwys Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 na Deddfau eraill megis Deddf Henebion Hynafol 1979.

<sup>6</sup> Papur Ymgynghori, para 17.22.

- 17.11 Y dull gweithredu hyd at 2013 mewn perthynas â cheisiadau am adolygiad barnwrol o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil oedd pennu terfyn amser hyblyg – roedd yn rhaid i gais gael ei gyflwyno'n ddi-oed ("promptly"), a sut bynnag o fewn tri mis – ond gellid ymestyn y terfyn amser o dri mis gyda chaniatâd. Creodd hyn gryn dipyn ansicrwydd ac, felly, diwygiwyd y Rheolau er mwyn darparu terfyn amser penodedig. Ymddengys i ni fod hyn yn synhwyrol mewn egwyddor. O ran pa derfyn amser y dylid ei bennu, bydd hynny'n gofyn am gydbwysio awydd y rhai sy'n herio penderfyniad (yn enwedig trydydd partion) i gael digon o amser i wneud y gwaith yn iawn yn erbyn awydd y rhai y mae'r cais i herio penderfyniad yn effeithio arnynt i allu dibynnu arno cyn gynted â phosibl. Mae'r sefyllfa bresennol, lle y caniateir hyd at chwe wythnos i herio penderfyniad cynllunio o dan Ran 54, yn cyd-fynd â'r terfyn amser o dan Ran 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Nodwn na chyfeiriodd unrhyw ymgngoreion eraill at y pwynt yn eu hymatebion i'n Papur Ymgynghori, ac rydym o'r farn y byddai angen i unrhyw ymgais i newid y terfyn amser presennol o chwe wythnos fod yn destun ymgynghoriad ar wahân.
- 17.12 Yn amodol ar y pwynt hwnnw, credwn o hyd y byddai cymhathu'r broses o adolygu penderfyniadau cynllunio yn farnwrol a'r system adolygiadau barnwrol ehangach, yn sicrhau bod y system yn fwy hygyrch i ddarpar ymgeiswyr. Felly, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig ar ei ffurf wreiddiol, fel a ganlyn.

#### **Argymhelliad 17-1.**

**Argymhellwn y dylai Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (heriau yn yr Uchel Lys i ddilysrwydd gweithredoedd a phenderfyniadau o dan y Ddeddf) gael ei disodli yn y Bil Cynllunio gan ddarpariaethau newydd i'r perwyl y gall llys ystyried achos ar gyfer amau unrhyw benderfyniad gan gorff cyhoeddus o dan y Cod (ac eithrio un y mae hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn ei erbyn) – ac unrhyw fethiant i wneud unrhyw benderfyniad o'r fath – ond dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:**

- (1) **caiff yr achos ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol;**
- (2) **caiff y ffurflen gais ei chyflwyno:**
  - **cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos yn achos her i benderfyniad Gweinidogion Cymru ar apel yn erbyn hysbysiad gorfodi (ac eithrio penderfyniad sy'n rhoi caniatâd cynllunio), hysbysiad cyfnewid coed, hysbysiad tir blêr y golwg neu benderfyniad sy'n rhoi tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli; neu**
  - **cyn diwedd y cyfnod o chwe wythnos mewn unrhyw achos arall,**

**sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwnaed y penderfyniad perthnasol.**

## CYWIRO MÂN WALLAU

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (sy'n ymwneud â chywiro mân wallau mewn penderfyniadau) yn y Bil, ond y dylid ei diwygio er mwyn rhoi cyfnod o 14 diwrnod y gall Gweinidogion Cymru neu arolygydd ymateb i gais i gywiro eu penderfyniad/ei benderfyniad ac y gall ymgeisydd ymateb i hysbysiad ganddynt/ganddo eu bod/ei fod yn bwriadu gwneud cywiriad o'r fath oddi mewn iddo (Cwestiwn 17-2 o'r Ymgynghoriad).***

- 17.13 O dan amgylchiadau lle mae dogfen penderfyniad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu arolygydd yn cynnwys "correctable error", mae Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn darparu y gallant/gall ei gywiro drwy gyhoeddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw. Diffinnir gwall cywiradwy fel gwall neu hepgoriad "contained in any part of the decision document ... but which is not part of any reasons given for the decision".<sup>7</sup> Bwriedir i'r weithdrefn gael ei defnyddio ar gyfer "obvious clerical errors...not material errors going to the substance of the decision."<sup>8</sup>
- 17.14 Gellir cyhoeddi hysbysiad cywiro ar gais neu ar ôl hysbysu'r ymgeiswyr am y bwriad i gyhoeddi un.<sup>9</sup> Mae'r weithdrefn yn ei gwneud yn bosibl i wallau ansylweddol gael eu cywiro heb achos costus yn yr Uchel Lys.
- 17.15 Awgrymwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori fod y cyfnod o amser y gall Gweinidogion Cymru neu Arolygydd gymryd camau oddi mewn iddo (chwe wythnos o ddyddiad y penderfyniad dan sylw fel arfer) yn rhwystro hysbysiadau cywiro rhag cael eu defnyddio mewn ymateb i her yn yr Uchel Lys.<sup>10</sup>
- 17.16 Cynigiwyd gennym y dylid rhoi cyfnod gras o 14 diwrnod y gallai'r penderfynwr perthnasol ymateb i gais am hysbysiad cywiro oddi mewn iddo. Ar ôl i'r cais am hysbysiad cywiro gael ei wneud neu ar ôl i'r ymgeisydd gael ei hysbysu am y bwriad i gyhoeddi un, câi'r terfyn amser o chwe wythnos ei roi o'r neilltu am y tro nes i ymateb gael ei roi neu nes i'r cyfnod o 14 diwrnod ddod i ben. Awgrymwyd gennym y byddai hyn yn atal ceisiadau diangen i'r Uchel Lys rhag gorfod cael eu gwneud os oedd yr holl bartïon a oedd yn gysylltiedig â'r achos yn gytûn.
- 17.17 Roedd pob un o'r 24 o ymgyngoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn yn ei gefnogi. Awgrymodd Allan Archer "hopefully could avoid having to go through lengthy challenge procedures when a correction would resolve an issue". Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd ei fod yn "sensible proposal".

---

<sup>7</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 59(5), 59(8).

<sup>8</sup> Hansard, Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 5 Chwefror 2004, Cyf 657, colofn 885.

<sup>9</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a 56(2).

<sup>10</sup> Papur Ymgynghori, para 17.32.

**Argymhelliad 17-2.**

**Argymhellwn y dylid cynnwys Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (sy'n ymwneud â chywiro mân wallau mewn penderfyniadau) yn y Bil, ond y dylid ei diwygio er mwyn rhoi cyfnod o 14 diwrnod y gall Gweinidogion Cymru neu arolygydd ymateb i gais i gywiro eu penderfyniad/ei benderfyniad ac y gall ymgeisydd ymateb i hysbysiad ganddynt/ganddo eu bod/ei fod yn bwriadu gwneud cywiriad o'r fath oddi mewn iddo.**